Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council









Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
2023-2028

# **Adroddiad blynyddol 2025-26**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English

# Cynnwys

Cyflwyniad……………………………………………………………………….……….……………...…… 2

Datblygiadau/cyflawniadau yn ystod 2025-2026 ……………………………………………….………… 3-6

Mentrau i Gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2025-2026…………………………………… 6- 7

Crynodeb o gynnydd ar y Themâu Strategol ar gyfer 2025-2026……………………………………… 8

- Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg...…………….………….... 8-10
- Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg……………………...…….…....11-12
- Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun…........….…...13-14

Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Polisi, Llywodraethu a Pherfformiad ar 07805 771506 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n falch o gyflwyno trydydd adroddiad blynyddol Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2023-2028. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Yn ystod y cyfnod hwnnw cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym Mharc Gwledig Margam, gan gynrychioli carreg filltir arwyddocaol i iaith a diwylliant Cymru yng Nghastell-nedd Port Talbot, a nododd y fwrdeistref sirol hefyd ganmlwyddiant geni'r seren Hollywood Richard Burton.

*Yn ôl cyfrifiad 2021, gall tua 13.5% o bobl dros dair oed yn CnPT siarad Cymraeg – gostyngiad o 2011 pan oedd y ganran yn 15.3%. Y ffigur ar gyfer Cymru gyfan oedd 538,300 (17.8%).*

Ar 12 Gorffennaf 2023, mabwysiadodd y Cyngor fersiwn ddiwygiedig *Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023–2028* ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Mae’r strategaeth yn amlinellu sut y bydd yn cyngor yn hyrwyddo’r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweld a’i chlywed yn fwy amlwg ac yn cael ei defnyddio'n fwy gweithredol yn ein cymunedau lleol erbyn 2028.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â themâu strategol Strategaeth y Gymraeg *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu ein dull o fynd ati i wneud y canlynol:

- cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg;
- gwella defnydd o'r Gymraeg; *a*
- creu'r amodau cynhaliol sydd eu hangen o fewn y fwrdeistref sirol i alluogi'r iaith i ffynnu.

Yn ogystal â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau, mae'r strategaeth hefyd yn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws gweithlu Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd wrth weithredu camau gweithredu'r strategaeth gyda dyddiadau targed rhwng 1af Ebrill 2025 a Mawrth 31ain, 2026.

# Datblygiadau/Cyflawniadau yn ystod 2025-2026

## Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025

Ym mis Mai 2025, cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025 ym Mharc Gwledig Margam a chyflawnodd y nifer uchaf erioed, sef 119,593 o gofrestriadau cystadleuwyr. Yn arbennig, roedd cynnydd o 42% hefyd yn nifer y dysgwyr Cymraeg a gymerodd ran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyrhaeddodd cyfanswm o 17 o ysgolion o Gastell-nedd Port Talbot safle cyntaf, ail, neu drydydd yn ystod wythnos y rowndiau terfynol, gyda llawer mwy yn cymryd rhan yn y rowndiau rhagbrofol cynharach, a thua 15,000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan drwy gydol yr ŵyl. Darparodd Eisteddfod yr Urdd lwyfan cryf i arddangos ymrwymiad y cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg.






Fe wnaeth cynnal Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym Mharc Gwledig Margam gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol yn amlwg, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc a dysgwyr Cymraeg. Gwelodd y digwyddiad y lefelau uchaf erioed o ymgysylltu, gweithgarwch diwylliannol lleol helaeth a mwy o weledeedd i'r Gymraeg mewn ysgolion, cymunedau a gwasanaethau'r cyngor. Er y bydd effeithiau tymor hwy ar ddefnydd y Gymraeg yn cymryd amser i ddod i'r amlwg mewn setiau data cenedlaethol, mae dangosyddion cynnar yn awgrymu'n gryf fod gwaddol cadarnhaol i iaith a diwylliant Cymru yn y fwrdeistref sirol.

## Dewch i Sgwrsio




Yn ystod Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, lansiodd y cyngor ei ymgyrch Dewch i Sgwrsio – Let's Talk, sy'n anelu at hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, gwella sgiliau iaith, gwella hyder a defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol. Mae'r ymgyrch yn cyfeirio trigolion, ymwelwyr a chyflogeion y cyngor at gyfleoedd, gweithgareddau ac adnoddau ar gyfer defnyddio a dysgu'r Gymraeg fel rhan o ymdrechion ehangach y cyngor i gefnogi a hyrwyddo'r iaith.




Ers lansio'r ymgyrch, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau Cymraeg yn y gronfa ddata "Digwyddiadau" ar wefan y cyngor. Cyfanswm o 133 o ddigwyddiadau yn 2025-2026, o'i gymharu â 45 o ddigwyddiadau yn 2024-2025. Yn ogystal, rhagwelir cynnydd yn nefnydd a hyrwyddo'r Gymraeg yn y dyfodol fel rhan o waddol Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025.

## Canmlwyddiant Richard Burton

Er i Richard Burton ennill enwogrwydd rhyngwladol, roedd rhaglen y canmlwyddiant yn pwysleisio ei wreiddiau, ei lais a'i hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig yn gyson, gan amlygu sut y lluniodd ei fagwraeth ym Mhontrhydyfen a Thaibach ei gelfyddyd. Roedd rhaglen y canmlwyddiant yn cynnwys gweithgarwch creadigol Cymraeg, yn enwedig drwy berfformiadau gan gwmnïau theatr Cymraeg fel Theatr Na nÓg, yn ogystal â dehongli dwyieithog, arwyddion a chynnwys digidol ar hyd Llwybrau Richard Burton. Cyfrannodd hyn at normaleiddio presenoldeb cyhoeddus bob dydd y Gymraeg mewn lleoliadau diwylliannol ac ehangu mynediad i brofiadau celfyddydol cyfrwng Cymraeg i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

## Cynllun Placiau Glas Coffaol




Agorodd y Cynllun Placiau Glas Coffaol newydd ar gyfer enwebiadau ddechrau 2025. Gosodwyd y placiau cwbl ddwyieithog cyntaf ym mis Tachwedd 2025, i anrhydeddu Richard Burton a'i dad mabwysiadol Philip Burton. Dilynwyd hyn ym mis Mawrth 2026 gyda phlac a ddadorchuddiwyd er anrhydedd i Ray Milland o Gastell-nedd, enillydd Oscar cyntaf Cymru. Cymeradwywyd placiau glas ychwanegol (e.e. ar gyfer David Thomas a Dafydd Rowlands) ddiwedd 2025 a threfnwyd i'w gosod yn ddiweddarach yn 2026.

## Buddsoddiad mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

Ar ddechrau 2026, dechreuodd y gwaith ar ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd sbon o'r radd flaenaf ym Mhort Talbot. Bydd y datblygiad yn darparu amgylchedd dysgu modern ac amgylcheddol gynaliadwy i hyd at 511 o ddisgyblion. Bydd yn cynnwys darpariaeth meithrinfa a gofal plant, Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol, Uned Trochi'r Gymraeg, a chyfleusterau chwaraeon a chwarae awyr agored gwell, a llety ar gyfer gwasanaethau addysg oedolion.



## Llyfr Plant Dwyieithog – Aled Afal




Ym mis Hydref 2025, rhyddhaodd y cyngor lyfr plant dwyieithog newydd. Mae *Aled Afal yn Archwilio Castell-nedd Port Talbot*, yn dilyn cymeriad afal siriol sy'n ymweld â safleoedd treftadaeth lleol eiconig i ysbrydoli darllenwyr ifanc. Datblygwyd y llyfr gyda mewnbwn gan ddisgyblion lleol fel rhan o'r fenter llythrennedd *Treehouse Tales* a chafodd ei lansio yng Ngŵyl Llyfrau Plant CnPT. Dosbarthwyd copïau i bob ysgol a llyfrgell, gyda chymorth y rhaglen Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau a ariennir gan UKSPF.

## Meithrinfa Ddydd Ddwyieithog Newydd



Rhoddwyd bywyd newydd i gyn-gapel gwag i ddarparu gwasanaeth angenrheidiol i'r gymuned leol yng Nghwmgwrach, diolch i gyllid a dderbyniwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae Meithrinfa Ddydd Croeso yn darparu gwasanaeth gofal dydd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) i Gwmgwrach a'i phentrefi cyfagos. Nod Meithrinfa Ddydd Croeso yw annog plant i ddysgu'r Gymraeg o oedran ifanc.




Parhaodd y gefnogaeth i ymgyrchoedd cenedlaethol megis 'Defnyddia Dy Gymraeg' a 'Diwrnod Shwmae Su'mae'. Creodd Tîm Marchnata Masnachol y cyngor fideo cyfryngau cymdeithasol ar draws lleoliadau i nodi 'Diwrnod Shwmae Su'mae' ar Hydref 15fed 2025, yn cynnwys staff o wahanol rolau yn ein lleoliadau masnachol yn defnyddio cyfarchion Cymraeg, gan gyflawni cyrhaeddiad organig cyfunol o tua 20,000 ar draws Facebook ac Instagram.

# Mentrau i Gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2025-2026



**Dysgu Cymraeg -** Rydyn ni'n cydnabod bod cefnogi ac annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gwaith yn rhan allweddol o'n hymdrechion cydymffurfio. Er bod 4,725 o gyflogeion wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu Cymraeg yn CnPT erbyn diwedd mis Mawrth 2026, mae nifer y bobl sy'n mynychu hyfforddiant Cymraeg yn gyffredinol isel. Yn y dyfodol, byddwn yn anelu at hybu cyfranogiad staff a gwella gwasanaethau Cymraeg i drigolion CnPT drwy wella adnoddau dysgu Thinqi, archwilio opsiynau dysgu newydd, a chydweithio â'r Grŵp Swyddogion y Gymraeg a Menter Iaith.

Daliwyd ati i gynnal gweithgareddau ar hyd y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith cyflogeion Cyngor CnPT:

**Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi** - Cynhaliodd Grŵp Swyddogion y Gymraeg nifer o ddigwyddiadau anffurfiol i gydweithwyr i nodi Dydd Gŵyl Dewi yn y tri phrif adeilad dinesig (Y Ceiau, Canolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot), yn ogystal â chwis ar-lein yn canolbwyntio ar iaith a diwylliant Cymru.




Cafodd y digwyddiadau dderbyniad da, ac roedden nhw'n gyfleoedd i gyflogeion ymarfer eu Cymraeg a'u hannog i archwilio tudalennau gwe *Dewch i Sgwrsio* am wybodaeth am weithgareddau sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Mynychodd cyfanswm o 108 o gyflogeion y digwyddiadau.




**Hyder-ish** - Dechreuodd ail gwrs chwe wythnos *Hyder-ish* i gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd 2025, a ddarparwyd gan Fenter Iaith CnPT. Nod y sesiynau amser cinio oedd helpu siaradwyr Cymraeg i feithrin hyder yn eu sgiliau iaith trwy roi cyfle iddyn nhw ymarfer yn anffurfiol trwy gwblhau tasgau diddorol.

Roedd 5 yn y garfan hon o staff.  Mae bwriad i gynnal rhagor o gyrsiau mewn gwahanol adeiladau dinesig, a bydd swyddogion yn archwilio dichonoldeb gwneud y rhain yn hybrid, fel bod mwy o hyblygrwydd i'w mynychu.

# Crynodeb o gynnydd ar y Themâu Strategol ar gyfer 2025-2026

Mae diweddariadau ar bob cam gweithredu yn y cynllun i'w gweld yn Atodiad 1 – Cynnydd yn Erbyn yr Amcanion. Fodd bynnag, roedd rhai elfennau allweddol o waith yn ystod 2024/2025 yn cynnwys:

## Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg

**Maes gwaith:** Cefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Cefnogwyd cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drwy weithgarwch cydlynol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd, darpariaeth blynyddoedd cynnar a'r gymuned ehangach. Parhaodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i ymgysylltu â rhieni dysgwyr cyfrwng Cymraeg drwy'r Grŵp Facebook *Cymorth Gwaith Cartref Cymraeg*, ymgysylltu cymunedol wedi'i dargedu a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Gwellodd y llyfryn digidol *Manteision Dwyieithrwydd* fynediad at wybodaeth allweddol i deuluoedd.

**292**
o blant wedi cael mynediad at ofal plant Dechrau'n Deg Cymraeg neu Ddwyieithog a ariannwyd

Gwnaed cynnydd hefyd o ran gwreiddio'r Gymraeg o'r camau cynharaf, gan gynnwys ehangu darpariaeth gofal plant Cymraeg, darparu gofal plant Dechrau'n Deg Cymraeg a dwyieithog a ariannwyd, hyfforddiant i gyflogeion i hyrwyddo dwyieithrwydd, a rhaglen o weithgareddau Cymraeg gweladwy, mynediad agored i fabanod, plant ifanc a

**12**
o sesiynau Caneuon a Rhigymau Cymraeg wedi'u trefnu gan Fenter Iaith CnPT mewn llyfrgelloedd ar draws Castell-nedd Port Talbot

theuluoedd. Gyda'i gilydd, cynyddodd y gweithgarwch hwn amlygiad i'r Gymraeg, cryfhaodd hyder teuluoedd a chefnogodd ddatblygiad cynnar yr iaith ledled y fwrdeistref sirol.

## **Maes gwaith:** Trosglwyddiad iaith yn y cartref

Canolbwyntiodd gweithgarwch ar gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu Cymraeg a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymhlith trigolion. Parhaodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i gyfeirio rhieni at Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, darpariaeth Mudiad Meithrin a chyfleoedd anffurfiol lleol, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cwrs *Dysgu Cymraeg gyda'ch plentyn* rhad ac am ddim, gan gefnogi rhieni a phlant i ddysgu gyda'i gilydd.

Cryfhawyd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhellach drwy ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau partneriaid, cyflwyno gweithgareddau Cymraeg mewn gwyliau ledled y sir, hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg i hwyrddyfodiaid, a sesiynau caneuon a rhigymau Cymraeg rheolaidd mewn llyfrgelloedd.

Darparodd sesiynau Cymraeg ychwanegol a gynhaliwyd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gyfleoedd pellach i blant a phobl ifanc ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg, gan gefnogi ymgysylltiad ehangach â'r iaith ledled y sir.

## **Maes gwaith:** Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg

Parhaodd yr ymdrechion i gryfhau dysgu ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith cyflogeion y cyngor, ond roedd y nifer a oedd yn mynychu hyfforddiant Cymraeg yn parhau'n gyffredinol isel.

Fodd bynnag, cynyddodd cyfranogiad yng nghwrs e-Ddysgu Cymraeg y cyngor yn sylweddol, gyda dros 4,700 o gyflogeion wedi cwblhau'r hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2026. Mae'r cwrs hwn bellach wedi'i awtomeiddio, sy'n golygu bod pob cyflogai newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar eu diwrnod cyntaf o gyflogaeth.

Diweddarwyd y rhaglen sefydlu gorfforaethol i sicrhau bod y cynnwys bellach yn gwbl ddwyieithog.

Cynyddodd nifer cyflogeion y Cyngor oedd wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu Cymraeg gan

**1,866**

Mae'r camau gweithredu hyn yn rhan o strategaeth hirdymor i gynyddu nifer y cyflogeion sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg a bydd yn cymryd amser i ddangos effaith fesuradwy.

Parhaodd adnoddau Gymraeg i deuluoedd a'r cyhoedd i ehangu, gyda mwy o ddefnydd o gynnwys ar-lein a datblygiad parhaus deunyddiau ymarferol i gefnogi dysgwyr o bob oed. Darparodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot adnoddau wedi'u targedu ar gyfer rhieni, plant, dysgwyr sy'n oedolion a lleoliadau ieuenctid, gyda chefnogaeth cyfeirio effeithiol at Dysgu Cymraeg, Mudiad Meithrin a chyfleoedd dysgu yn y gymuned.

# Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

## Maes gwaith: Cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol 2022-2032

Cynhaliodd Llyfrgelloedd CnPT **195** o ddigwyddiadau Cymraeg gyda **1,684** o fynychwyr

Gwnaed cynnydd o ran cynyddu gwelededd, defnydd a pherthnasedd cymdeithasol y Gymraeg ar draws llyfrgelloedd, lleoliadau diwylliannol, darpariaeth ieuenctid a lleoliadau cymunedol. Cefnogodd y Gwasanaethau Llyfrgell fynediad at ddeunyddiau Cymraeg drwy raglen gynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau benthyca, ynghyd â chasgliadau grwpiau darllen estynedig a chyfranogiad mewn mentrau llenyddol cenedlaethol a lleol.

Cafodd y Gymraeg ei gwreiddio'n gyson ar draws gweithgareddau diwylliannol a hamdden pwysig, gan gynnwys ymgyrch Canmlwyddiant Richard Burton, Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam, a rhaglenni yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe a Neuadd Gwyn. Fe wnaeth y mentrau hyn ddarparu profiadau cwbl ddwyieithog, cynyddu ymgysylltiad cynulleidfaoedd a chefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd, gyda phresenoldeb cryf mewn digwyddiadau iaith a diwylliant Cymru ledled y sir.

Cryfhaodd gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot y defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc drwy becynnau adnoddau ar gyfer pob clwb ieuenctid, darpariaeth ieuenctid bwrpasol Cymraeg, ymgysylltu seiliedig ar gerddoriaeth a digwyddiadau creadigol a oedd yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw, gymdeithasol. Cefnogodd cerddoriaeth gymunedol, theatr, gwyliau a sesiynau cymdeithasol anffurfiol ymhellach ddefnydd bob dydd o'r Gymraeg ar draws ystod eang o leoliadau a grwpiau oedran, gan gyfrannu at fwy o hyder, gwelededd a chyfranogiad yn yr iaith.

## Maes gwaith: Ehangu defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle etc

**109**
o gydweithwyr wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi y cyngor yn 2026

Yn ystod 2025–26, gwnaed cynnydd wrth gefnogi cyflogeion y cyngor i feithrin hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg ac wrth gryfhau’r sylfeini ar gyfer mwy o ddefnydd mewnol o’r iaith. Darparodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot gwrs *Hyder-ish* arall i gyflogeion y cyngor, gan gefnogi cyfranogwyr i ailfeithrin hyder yn eu Cymraeg llafar, er bod y ddarpariaeth wedi'i chyfyngu gan gapasiti staffio.

Ochr yn ochr â hynny, aeth y cyngor ati i ddatblygu Polisi Defnydd Mewnol o’r Gymraeg drwy gymryd rhan mewn cynllun peilot dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg. Caiff y polisi ei chyhoeddi yn 2026–27 a bydd yn darparu fframwaith clir i gefnogi cyflogeion i gyflawni rhwymedigaethau Cymraeg a gwreiddio'r Gymraeg yn fwy cyson mewn arferion gwaith mewnol.

# Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun

## Maes gwaith: Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal

Cynyddodd ymweliadau â thudalennau Cymraeg gwefan y cyngor gan **31,525** o'i gymharu â 2024-25

Yn ystod 2025–26, parhaodd y cyngor a'i bartneriaid i gryfhau gwelededd, defnydd a pherthnasedd diwylliannol y Gymraeg ar draws addysg, diwylliant, twristiaeth, ymgysylltu â busnesau a mentrau cymunedol. Hyrwyddwyd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc drwy sesiynau mewn ysgolion a gweithgareddau ieuenctid wedi'u targedu a oedd yn atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig, treftadaeth Cymru a defnydd cymdeithasol o'r iaith.

Cafodd iaith a diwylliant Cymru eu gwreiddio ar draws gweithgareddau diwylliannol, hamdden a rheoli cyrchfannau pwysig, gyda marchnata, rhaglennu a phrofiadau cwsmeriaid cwbl ddwyieithog yn cael eu cyflwyno mewn lleoliadau'r cyngor a digwyddiadau proffil uchel. Cynyddodd hyrwyddo wedi'i dargedu, partneriaethau ac ymgyrchoedd dwyieithog gyrhaeddiad, ymgysylltiad a chyfranogiad yn sylweddol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn elfen graidd o ymdeimlad o le'r sir.

Ehangwyd ymgysylltiad cymunedol drwy ddigwyddiadau diwylliannol cynhwysol, partneriaethau â chymunedau amrywiol ac ehangu'r ymgyrch Dewch i Sgwrsio – Let's Talk Welsh, a gynyddodd ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y Gymraeg ac ymgysylltiad ar-lein. Cefnogwyd y defnydd o'r Gymraeg hefyd o fewn gweithgareddau datblygu economaidd lle bo'n bosibl a'i hyrwyddo'n gyson drwy gyfathrebiadau â busnesau.

Cryfhawyd y gallu i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg drwy rôl Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddarparu cefnogaeth dargedig i ysgolion a gwasanaethau a chefnogi dull cyfannol o ddatblygu defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau cymdeithasol a llafar.

## Maes gwaith: Gwreiddio’r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau

Parhaodd y cyngor i gryfhau'r systemau, y polisïau a'r seilwaith sydd eu hangen i ymgorffori'r Gymraeg yn fwy cyson ar draws arfer mewnol, gwasanaethau digidol, gweithgaredd treftadaeth a chynllunio strategol. Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu'r **Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg** drwy gynllun peilot gyda Chomisiynydd y Gymraeg, gyda chyhoeddi wedi'i gynllunio ar gyfer 2026–27 i gefnogi cyflogeion i gyflawni rhwymedigaethau’r Gymraeg.

Parhaodd y Gymraeg i fod yn ganolog i ddylunio a darparu gwasanaethau digidol i gwsmeriaid, gyda chynnwys dwyieithog wedi'i wreiddio yn ddiofyn ar draws platfformau, datblygiad parhaus gwefan y cyngor a chyfrif FyCnPT, a chyflwyno offer cyfieithu â chymorth AI a gefnogir gan adolygiad dynol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â safonau digidol a hygyrchedd corfforaethol ac yn atgyfnerthu darpariaeth gwasanaethau sy'n gynhwysol yn ddigidol.

**3**
phlac glas cwbl ddwyieithog wedi’u datgelu yn ogystal â
**2** arall wedi'u cymeradwyo

Roedd iaith a diwylliant Cymru wedi’u gwreiddio’n gyson mewn gweithgareddau treftadaeth, coffáu a gweithgareddau cyhoeddus drwy gyhoeddiadau, digwyddiadau, hyfforddiant, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu dwyieithog. Parhaodd monitro data’r Gymraeg, gyda data’r Cyfrifiad ac addysg yn llywio dealltwriaeth o dueddiadau lleol, tra bod ystyriaeth wedi’i rhoi i gydnabyddiaeth fewnol o gyfraniad y Gymraeg drwy ddulliau ymgysylltu â chyflogeion sy’n esblygu.